

## Gwybodaeth ar gyfer Defnyddwyr, yn Unigollion ac yn Grwplau

### Cyfyngiadau Covid

Sylwch mae, oherwydd cyfyngiadau Cofid, dim ond y neuadd sydd ar gael i'w llogi ar hyn o bryd (efo defnydd y gegin trwy drefniant arbennig). Er mwyn talu ein costau glanhau, codir tâl lleiaf o 2 awr y sesiwn am unrhyw archeb. Mae rhaid i bob grŵp ddarparu asesiad risg Covid wrth archebu ac i gytuno i ddilyn ein canllawiau Cofid, wedi gosod mewn dogfen neilltuoel. Gobeithir gallu ymlacio'r cyfyngiadau cyn gynted â bo modd – edrychwch ar ein gwefan neu gysylltwch â rheolwr archebu'r Canolfan ar gyfer gwybodaeth cyfredol.

### Amserau sydd ar gael

- Dydd Llun i Ddydd Gwener ar gyfer defnydd rheolaidd; Dydd Sadwrn ar gyfer defnydd achlysurol (mae'r Canolfan ar gau Ddydd Sul)
- Y cyntaf i'r felin gaiff falu, a gall defnyddwyr rheolaidd neilltuo bloc o sesiynau
- Bydd rhaid glanhau rhwng sesiynau, sydd yn debyg o gyfyngu'r amserau ar gael

### Gweithgareddau/grwplau sy'n gymwys

Mae croeso i'r gweithgareddau a'r grwpiau canlynol:

- Unigollion
- Grwpiau cymunedol
- Clybiau a chymdeithasau
- Mudiadau gwirfoddol
- Busnesau
- Digwyddiadau cymdeithasol
- Partïon plant
- Boreau coffi
- Grwpiau rhieni a'u plant
- Digwyddiadau hyfforddi
- Cyfarfodydd

*Sylch fod rhai o'r gweithgareddau hyn ddim yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid.*

### Disgwylr i grwplau

- Gadw'r cyfleusterau fel y'u cawsant (gan adael i ni wybod am unrhyw broblemau)
- Gytuno i fod yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir gan y grŵp
- Sicrhau yswiriant addas (siaradwch wrth y rheolwr archebu am ragor o fanylion)
- Gydymffurfio â holl reolau'r Ganolfan, gan gynnwys polisïau lechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant
- Defnyddiwch dim ond y cyfleusterau yr ydych wedi archebu, yn ystod yr adegau yr ydych wedi bwcio nhw (os ydych yn defnyddio cyfleusterau ychwanegol, neu am fwy o amser, bydd rhaid i chi dalu ar eu cyfer); gwnewch yn siwr bod chi'n cynnwys amser i osod a clirio ar gyfer eich gweithgaredd wrth archebu.

## **Ffioedd Archebion**

Fel nodir uchod, dim ond y neuadd sydd ar gael i'w archebu ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid. O fis Ionawr 2021, y tâl sylfaenol i archebu'r neuadd yw £15/awr. Ar gyfer grwpiau cymuned, codir tâl gostyngol o £5/awr o'r ail awr o bob sesiwn ymlaen, ond codir y tâl sylfaenol trwy'r sesiwn i gyd ar gyfer grwpiau preifat. Sylwch bydd y tâl bob amser yn cael ei dalgrynnu i fyny at yr awr llawn, ac ar hyn o bryd bydd y tâl am 2 awr o leiaf er mwyn talu ein costau glanhau ayyb.

- Grwpiau Cymunedol yw grwpiau a chlybiau sydd yn annog ac yn cefnogi bywyd cymunedol ym Mangor ac Arfon trwy redeg gweithgareddau sy'n agored i bawb
- Digwyddiadau preifat yw archebion lle mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai a wahoddir gan y trefnydd

***Canslo: Gall archeb yn cael ei ganslo hyd at hanner dydd ar y diwrnod gwaith blaenorol yn ddi-dâl; fel arall bydd y ffi llogi llawn yn cael ei godi (onibai bod y rheolwr archebu yn penderfynu i'w lleihau).***

Oherwydd Covid neu argyfwng arall mae posibilrwydd bydd rhaid i ni gau'r Canolfan neu ganslo archebion ar fyr rhybudd, er bydden ni'n ceisio rhoi i chi gymaint o rybudd â phosibl yn yr achos hon.

Gobeithir bydd gweddill y Canolfan ar gael yn fuan i'w archebu a bydd dim rhaid codi tâl am 2 awr neu fwy bob tro. Cyhoeddir manylion o strwythur ffioedd ar gyfer ystafelloedd gwahanol pan fo'n addas.

## **Tallad**

- Bydd defnyddwyr rheolaidd yn talu bob mis neu mewn rhandaliadau addas
- Mae taliadau ar gyfer archebion unigol yn ddyledus ar ddiwrnod yr archeb, neu o fewn 7 diwrnod wedyn
- Mae anfonebau a talebau ar gael ar gais

## **Ffurflenni archebu lle**

- Mae'r rhain ar gael oddi wrth reolwr archebu'r Canolfan (gweler y cyfeiriad isod)
- Mae angen ffurflen archebu ar gyfer pob archeb (gyda ffurflen ar wahân ar gyfer pob cyfuniad gwahanol o ystafelloedd) a chadarnhad o archeb yn gofyn am dderbyn ffurflen wedi'i chwblhau, ynghyd â phrawf yswiriant addas ac asesiad risg Covid, a chymeradwyaeth gan bwyllgor y Canolfan

## **Gweithgareddau NI chaniateir**

Oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol a Dogfen Ymddiriedolaeth perchennog yr adeilad (Eglwys Bedyddwyr Penrallt), ni chaniateir y gweithgareddau canlynol ar y safle:

- Gwerthu neu yfed alcohol
- Hapchwarae (caniateir rafflau, ond nid loteriau sydd angen trwydded)
- Hyrwyddo unrhyw grefydd neu fyd barn ar wahân i'r ffydd Gristnogol
- Gweithgareddau anfoesol neu anghyfreithlon
- Gwaherddir ysmegu y tu mewn i'r adeilad (ac os byddwch chi'n ysmegu tu allan, fasen ni'n gofyn i chi sefyll i ffwrdd o'r drysau)
- Gweithgareddau eraill y gall y perchennog eu hystyried yn anaddas

Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â rheolwr archebu'r Canolfan.